IS-DDDEDDFWRIAETH CYMRU

# NOSC 2026 Rhif 72

# TRAFFIG FFYRDD

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Pen-sarn i Gylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Troi i'r Dde Dros Dro) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Ebrill 2026* |
| *Yn dod i rym* | *8 Ebrill 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Pen-sarn i Gylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Troi i'r Dde Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 April 2026.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 7 Ebrill 2026 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

# NWSI 2026 No. 72

# ROAD TRAFFIC

## The A40 Trunk Road (Pensarn Roundabout to St Clears Roundabout, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Right-hand Turns) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *7 April 2026* |
| *Coming into force* | *8 April 2026* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the A40 Trunk Road (Pensarn Roundabout to St Clears Roundabout, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Right-hand Turns) Order 2026 and this Order comes into force on 8 April 2026.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A40 London to Fishguard trunk road;

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 7 April 2026 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ganiatáu i unrhyw gerbyd droi i'r dde drwy'r bylchau yn y llain ganol ar y darn o'r gefnffordd o Gylchfan Pen-sarn i Gylchfan Sanclêr yn Sir Gaerfyrddin.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Ebrill 2026

*Tim Barnes*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, permit any vehicle to make a right hand turn through the central reservation gaps in the length of the trunk road from Pensarn Roundabout to St Clears Roundabout in Carmarthenshire.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the 7 April 2026

*Tim Barnes*
Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government